# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0357(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 19 Ionawr 2005

### At Catherine Thomas:

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 19 Ebrill mynegasoch bryder, mewn cwestiwn atodol i OAQ0357, fod adrannau tai lleol yn gofyn i ddioddefwyr brofi eu bod yn dioddef trais yn y cartref cyn y gallant gael llety. Yr wyf i'n ateb y cwestiwn hwn gan mai mater sy'n berthnasol i'm cylch gwaith i ydyw.

Bu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddosbarthu canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar ddigartrefedd a dyrannu llety yn Ebrill 2003. Ym mharagraff 13.23 o'r canllawiau, nodir:

"The Assembly Government considers it is not good practice for authorities to require direct evidence of violence...They should normally rely upon information provided by the applicant. In domestic violence cases, the authority must apply the probability test in section 177(1) of the 1996 Act and cannot take other matters into account (Bond v Leicester City Council [Court of Appeal, 23 October 2001]. 'Probable' was defined as meaning 'more likely than not'."

Gofynnaf i'm swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Dai i ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru i'w hatgoffa o'r paragraff hwn.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0373(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 19 Ebrill 2005

### At David Lloyd:

Cytunwyd yn ystod y cyfarfod llawn ar 19 Ebrill 2005 y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch sut y mae arbenigedd mudiadau gwirfoddol megis Diabetes UK Cymru a Gofal Arthritis yn cael ei ddefnyddio gan Raglen Cleifion Arbenigol Cymru. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ateb.

Yr ydym wedi meithrin cysylltiadau agos â mudiadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol er mwyn datblygu'r Rhaglen Cleifion Arbenigol (EPP) ymhellach. Mae tystiolaeth glir o waith partneriaeth effeithiol a brwdfrydedd i gynllunio a darparu cyrsiau EPP i ddiwallu anghenion cymunedau lleol yng Nghymru.

Mae'r aseswyr a'r tiwtoriaid hunanreoli sydd eisoes yn gweithio i fudiadau gwirfoddol megis Gofal Arthritis, Diabetes UK Cymru, a'r cymdeithasau sy'n ymwneud ag Endometriosis ac MS, yn helpu i ddarparu cyrsiau ac asesu tiwtoriaid newydd. Maent yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd, yn rhannu syniadau ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Yn ogystal, mae'r hyfforddiant preswyl a roddir i diwtoriaid EPP yn gyfle i hyfforddi a chefnogi tiwtoriaid hunanreoli ar gyfer mudiadau gwirfoddol trwyddedig yng Nghymru.

Gallaf eich sicrhau bod swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad rheolaidd â Gofal Arthritis a Diabetes UK, a chynrychiolir y mudiadau hyn ar grŵp cynghori cenedlaethol yr EPP ac ym mhob un o rwydweithiau rhanbarthol yr EPP. Yn ddiweddar, bu Gofal Arthritis yn helpu i ddarparu cwrs hunanreoli generig ym mwrdd iechyd lleol Caerffili, ac mae gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent gytundeb lefel gwasanaeth gyda byrddau iechyd lleol Tor-faen, Mynwy a Blaenau Gwent i ddarparu cyrsiau EPP yn eu cymunedau. Mae Diabetes UK

yn gyson yn cyfeirio gwirfoddolwyr at gyrsiau EPP, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i benderfynu sut orau i ymgorffori'r rhaglen yng ngwasanaethau dyddiol y gwasanaeth iechyd gwladol.

Gobeithiaf fod y wybodaeth uchod yn dangos pa mor bwysig yw cyfraniad mudiadau gwirfoddol at y Rhaglen Cleifion Arbenigol. Y gwirfoddolwyr sy'n helpu i ddarparu cyrsiau yw adnoddau mwyaf gwerthfawr y rhaglen.

Yr wyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er gwybodaeth.

**Gwybodaeth ychwanegol at Gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Diogelwch ar Ffyrdd Lleol a gyhoeddwyd gan Tamsin Dunwoody-Kneafsey, y Dirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, 19 Ionawr 2005**

**At Janet Davies:**

Yn ystod y drafodaeth yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 19 Ebrill ar Adroddiad Grant Arbennig: Diogelwch ar Ffyrdd Lleol, gofynasoch a oedd unrhyw dystiolaeth bod cylchfannau bach yn gwella diogelwch.

Defnyddir cylchfannau bach ar ffyrdd unffrwd trefol lle bo'r terfyn cyflymder yn 30 mya neu'n is. Fe'u gweithredir yn bennaf fel rhan o gynlluniau ehangach ar gyfer gostegu traffig. Yn y 1990au, cynhaliwyd astudiaeth helaeth gan y Transport Research Laboratory (TRL Ltd) o ddiogelwch cylchfannau bach â thair neu bedair allanfa. Dangosodd yr astudiaeth fod difrifoldeb y damweiniau a geir ar gylchfannau bach, ar gyfartaledd, yn ôl y ganran ar gyfer damweiniau angheuol neu ddifrifol, dipyn yn is na difrifoldeb damweiniau, ar gyfartaledd, ar fathau eraill o gyffyrdd.

Hefyd, mae'r risg o ddamwain yn digwydd i gerddwyr ger cylchfannau bach yn dueddol o fod yn isel, a hynny, yn ôl pob tebyg, am fod gyrwyr yn wyliadwrus oherwydd yr angen i stopio wrth y gyffordd.